# POLISI CYFATHREBU ESGOBAETHOL

Mae cyfathrebu yn elfen allweddol yn yr Eglwys yn ei chenhadaeth, yn ei haddysgu ac yn ei hefengylu. Dylai cyfathrebu da felly fod yn un o gonglfeini ei gweinidogaeth. Gan ein bod yn byw mewn oes electronig a digidol, mae pwysigrwydd cyfathrebu yn hanfodol os yw'r Eglwys i fod yn effeithiol yn yr 21ain Ganrif a thu hwnt.

## Egwyddorion

1. I Gristnogion mae cyfathrebu yn un o hanfodion yr efengyl ac felly mae'n gyfrifoldeb ar yr eglwys gyfan, yn bobl leyg ac ordeiniedig. Cyfathrebu'r Efengyl a chenhadaeth a gweinidogaeth yr eglwys yw efengylu i bob pwrpas. Dylai'r rhai sy'n hyrwyddo'r Eglwys i'r byd gael eu hyfforddi'n ddigonol a'u harfogi i wneud hynny'n effeithiol.

2. Dylai cyfathrebu clir fod yn flaenoriaeth uchel i bawb yn yr Eglwys, yn gynulleidfa ac offeiriadaeth fel ei gilydd.

3. Mae clywed a gwrando yr un mor bwysig â siarad a sgwrsio wrth gyfathrebu.

4. Gan ein bod yn byw mewn ardal wledig yn bennaf sy’n ddaearyddol eang, mae'n bwysig bod pob rhan o'r Esgobaeth yn teimlo eu bod wedi'u cysylltu nid yn unig mewn gweddi a chymdeithas ond hefyd â'i gilydd trwy ddefnyddio dulliau cyfathrebu cyfoes a thraddodiadol.

5. Er mwyn i'r Eglwys fod yn gwbl ymwybodol ac ymatebol i agenda werdd y byd a’i bod yn gweithredu fel stiward gofalus o'i hadnoddau, dylai'r Esgobaeth ymdrechu i symud i fod yn sefydliad di-bapur gymaint ag sy'n bosibl, gan ddefnyddio technoleg fodern fel e-bost a'r rhyngrwyd, ond gan gydnabod hefyd fod rhai heb yr offer i’w galluogi i symud ymlaen.

6. Rydym yn byw mewn diwylliant dwyieithog a'r defnydd deuol o'r Gymraeg a'r Saesneg yw ein nod gyda'r holl gyfathrebiadau swyddogol. Fel rhan o'r Eglwys yng Nghymru dylem fod yn ymwybodol o'i Pholisi Iaith Gymraeg bob amser.

## Polisi

1. Bydd Swyddog Cyfathrebu'r Esgobaeth yn cydlynu ac yn arfogi'r Esgobaeth ym maes Cyfathrebu. Rôl Tîm Cyfathrebu'r Esgobaeth a'i is-grwpiau yw cynorthwyo i hwyluso hyn.

2. Mae rôl Cyfarwyddwr Cyfathrebu’r Dalaith hefyd yn bwysig fel cyswllt rhwng yr Esgobaeth a'r Dalaith ac fel hwylusydd ar gyfer hyfforddiant a sgiliau.

3. Dylai'r Esgobaeth sefydlu strategaeth gyfathrebu pum cam gan ddefnyddio'r canlynol i gyd pan fydd angen rhannu gwybodaeth:

• Parhau i ddefnyddio, a diweddaru'n barhaus, Rhwydwaith Cyfathrebu'r Esgobaeth, gydag o leiaf un cyswllt ym mhob Ardal Weinidogaeth neu Fywoliaeth;

• Symud i ddarparu'r holl negeseuon Esgobaethol ar ffurf electronig;

• Defnyddio gwefan yr esgobaeth fel y ffordd a ffefrir o ledaenu newyddion, gwybodaeth ac adnoddau;

• Defnyddio Pobl Dewi fel cyfrwng i helpu i feithrin dealltwriaeth o "Esgobaeth" ac fel modd o gysylltu plwyfi ar draws yr Esgobaeth;

• Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ar draws amrywiaeth o blatfformau ac ar bob lefel, fel rhan o'n prif ffrwd gyfathrebu, gan alluogi'r Esgobaeth i gyfathrebu'n rhyngweithiol ag unigolion a sefydliadau fel ei gilydd.

4. Ein nod yw arfogi plwyfi, swyddogion a phwyllgorau'r esgobaeth â'r sgiliau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn gallu cyfathrebu'n effeithiol a darparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer cyfathrebu mewn oes ddigidol.

5. Pan wneir pob penodiad yn y dyfodol ar lefel plwyf, deoniaeth, archddiacon ac esgobaeth mae'r angen am glerigion a lleygion sy'n hyddysg ar gyfrifiadur ac ar e-bost yn hanfodol. Os nad yw'r sgiliau yn bresennol, dylai Swyddog Cyfathrebu'r Esgobaeth a/neu Dîm Cyfathrebu'r Esgobaeth ysgwyddo'r cyfrifoldeb o helpu i ddarparu hyfforddiant neu sgiliau perthnasol.

6. Mae rôl Cynghorydd y Gymraeg ac unrhyw dîm y gall ef/hi ei lunio yn hanfodol wrth hyrwyddo diwylliant dwyieithog yr Esgobaeth wrth gyfathrebu'n fewnol ac yn allanol.

7. Dylid annog Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol i feithrin cysylltiadau â'r cyfryngau lleol e.e. papurau newydd, cylchgronau, radio a chael eu hyfforddi'n briodol, yn ddelfrydol gan swyddog cyfathrebu / y wasg ym mhob Deoniaeth os nad yn eu Hardal Weinidogaeth neu Fywoliaeth.

8. Dylid annog a datblygu gweinidogaeth i ymwelwyr a thwristiaid gyda hyfforddiant, sgiliau ac adnoddau yn cael eu darparu gan Dîm Cyfathrebu'r Esgobaeth trwy ei Is-Grŵp Twristiaeth. Mae hon yn ffordd hanfodol i'r Eglwys ddangos ei chenhadaeth a'i hefengylu.

9. Pan fydd eglwys yn bresennol mewn digwyddiadau allanol, dylai hyrwyddo'i hun yn glir a chael deunydd sy'n esbonio pwy ydym ni, pam ydym ni a beth rydym yn ei wneud.

10. Dylai'r Esgobaeth ddarparu pecyn adnoddau, sydd ar gael ar-lein, ar arferion gorau wrth gyfathrebu (e.e. beth i'w roi mewn datganiad i'r wasg, pa feintiau i'w defnyddio ar bosteri, beth sy'n gwneud cylchlythyr da, arweinlyfrau, sut i wneud hysbysiadau/posteri dwyieithog ac ati).

11. Er budd tryloywder a chyfathrebu mewnol da, ein nod yw bod pob cyfarfod Esgobaethol yn gallu cynhyrchu crynodeb y gellir ei gyhoeddi ar y we.

*David Hammond-Williams Swyddog Cyfathrebu Esgobaethol*